

SL(5)633 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 i ehangu pwerau awdurdodau lleol i gyhoeddi cyfarwyddydau manau cyhoeddus fel y caiff y cyfarwyddydau wahardd neu reoleiddio gweithgareddau penodedig mewn man cyhoeddus, gan gynnwys yfed alcohol.

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Bydd awdurdodau lleol yn cael cyhoeddi cyfarwyddydau dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint y coronafeirws yn ardal yr awdurdod lleol a bod hynny'n gymesur i'r nod hwnnw. Rhaid i'r awdurdod lleol sydd wedi cyhoeddi'r cyfarwyddyd ei adolygu o leiaf unwaith bob saith niwrnod pan fydd mewn grym, ac os nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur mwyach, rhaid ei ddirymu. Ar ben hynny, caiff



parti sydd â buddiant apelio yn erbyn unrhyw gyfarwyddydau o'r fath gerbron llys ynadon."

Hefyd, nodwn y paragraff a ganlyn mewn man arall yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ran yfed alcohol yn benodol, mae'r pŵer ehangach o ran cyfarwyddydau mannau cyhoeddus yn ategu'r cyfyngiadau ar werthu alcohol a gyflwynwyd yng Nghymru ar 24 Medi gan y bydd yn helpu awdurdodau lleol i atal cynulliadau o bobl rhag yfed alcohol mewn ardaloedd dynodedig o ganlyniad i gau mangre drwyddedig yn gynt. Bydd ymddygiadau o'r fath yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws gan fod yfed alcohol yn arwain at lai o gydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ac yn gwneud gorfodaeth yn anoddach."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb ieuchyd cyhoeddus brys, gan gynnwys yr angen i lacio unrhyw gyfyngiadau nad ydynt bellach yn gymesur â'r ymateb hwnnw, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fel yr amlinellwyd pan wnaed y Rheoliadau gwreiddiol, drwy gydol y pandemig, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad agos â swyddogion gorfodi awdurdodau lleol sydd wedi dweud bod angen y pwerau hyn pan fydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol i ieuchyd yn bodoli ac nad yw'r pwerau cyfredol yn ddigonol."

Gyda Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion ac i fusnesau drwy gydol y newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio sydd ar waith i ymateb i'r bygythiad parhaus sy'n deillio o'r coronafeirws."

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Hydref 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

